

Ysgol Gynradd Gorslas,
Heol Y Llew Du,
Gorslas,
Llanelli,
Sir Gaerfyrddin.
SA14 6RS

Pennaeth Headteacher Mrs B. Owen (B.Ed)
Dirprwy Bennaeth / Deputy Headteacher: Mrs A Price
(B.Ed)
Tel (01269)842929
email:Beverley.owen@gorslas.ysgolccc.cymru

Gorslas Primary School,
Black Lion Road,
Gorslas,
Llanelli,
Carmarthenshire.
SA14 6RS

Trefniadau dychwelyd Blwyddyn 3 -6

Annwyl Riant/Gofalwr,

Gobeithio eich bod yn cadw'n ddiogel ac yn iach yn ystod y cyfnod anodd a heriol yma. Fel yr ydych wedi clywed, bydd plant blwyddyn 3,4,5 a 6 yn dychwelyd i'r ysgol o Fawrth 15fed ymlaen gyda'r bwriad o gael **pob** disgybl yn ôl erbyn Dydd Mercher 17eg. Er mwyn hwyluso'r dychwelyd, bydd Blynnyddoedd penodol yn dychwelyd yn ystod y 2 ddiwrnod cyntaf a phawb yn ôl ar y 17eg.

I'r rhai sydd wedi bod yn mynychu'r Hwb, Bydd hwn ar gael yn ystod y 2 ddiwrnod cyntaf yma.

Yr ydym yn edrych ymlaen i groesawu'r plant yn ôl ac am ddiolch i chi am eich cydweithrediad gwyb yn ystod y tymor yma.

Os ydych am drafod unrhyw bryderon sydd gennych o ran trefniadau dychwelyd i'r ysgol, mae croeso i chwi fy ffonio neu e bostio aelodau'r staff.

Dyma'r trefniadau ar gyfer dychwelyd yn ddiogel i'r ysgol-

- **Dydd Llun Mawrth 15fed – Blwyddyn 5 a 6**
- **Dydd Mawrth Mawrth 16eg Blwyddyn 3 a 4**
- **Dydd Mercher Mawrth 17eg pawb yn ôl.**
- **Bydd Hwb ar gyfer plant gweithwyr allweddol ar Fawrth 15fed a'r 16eg**
- **Bydd Clwb Brecwast ar gael bob bore rhwng 8 a 8.30yb**
- **Bydd cinio ar gael.**
- **Gwisg ysgol**

Amseroedd-

- **Cyrraedd y bore rhwng 8.45 a 9yb (os nad ydych yn mynychu Clwb Brecwast)**
- **Gorffen am 3.30yp**

Gallwn eich sicrhau mai diogelwch disgyblion a staff yw ein prif flaenoriaeth, ac mae gennym fesurau iechyd a diogelwch cadarn ar waith, sy'n gyson â'r mesurau a nodwyd yn y cyngor gwyddonol diweddaraf-

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Golchi dwylo/diheintio yn gyson ac yn effeithiol
- Rheoli symudiadau o amgylch yr ysgol i leihau cysylltiadau
- Awyru mewn ystafelloedd dosbarth drwy agor ffenestri
- Cadw pellter cymdeithasol o 2 fetr rhwng oedolion bob amser
- Cadw disgyblion mewn grwpiau cyswllt cyson/swigod ystafell ddosbarth

- Lefelau uchel o lanhau effeithiol
- Staff a disgyblion i aros gartref os oes ganddynt symptomau, os ydynt wedi cael prawf positif neu os yw'n ofynnol iddynt hunanynysu
 - Rheoli disgyblion / staff symptomatig yn effeithiol yn yr ysgol
 - Mae ymchwil yn dangos bod cyfraddau trosglwyddo rhwng plant a phlant eraill, a phlant ac oedolion mewn ysgolion yn isel iawn; ac mae trosglwyddo yn fwy tebygol ar aelwydydd neu drwy weithgareddau yn y gymuned, er enghraifft, aros dros nos, partïon plant, rhieni'n cyfarfod mewn cartrefi eraill ac ati. Ni ddylai plant gymysgu y tu allan i amgylchedd yr ystafell ddosbarth ac mae grwpiau cyswllt/swigod ystafell ddosbarth yn berthnasol i leoliad yr ysgol yn unig.
 - **Cofiwch y canlynol:**
 - Dim ond un rhiant i ollwng/casglu plentyn
 - Gwisgo gorchuddion wyneb (oni bai eich bod wedi'u heithrio)
 - Peidiwch ag ymgasglu yn yr ysgol - gadewch cyn gynted ag y byddwch wedi gollwng/casglu eich plant
 - Cadw pellter o 2 fetr oddi wrth oedolion eraill gan gynnwys staff yr ysgol
 - Peidiwch â mynychu'r ysgol os ydych yn hunanynysu neu os oes gennych unrhyw symptomau
 - Os oes gennych chi neu'ch plentyn neu unrhyw un arall sy'n byw yn eich cartref unrhyw un o symptomau Covid-19, rhaid i chi hunanynysu a chael eich profi ar unwaith. Mae hefyd yn bwysig eich bod yn rhoi gwybod i'ch ysgol os yw eich plentyn yn profi'n positif. I gael yr holl wybodaeth ddiweddaraf am ysgolion gan gynnwys rhestr gynhwysfawr o Gwestiynau Cyffredin, ewch i'n gwefan sirgar.llyw.cymru/addysg

Diolch am eich cefnogaeth a'ch cyd weithrediad parhaus,

Beverley Owen.